

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Dew Street Dental/Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 14 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	33
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Dew Street Dental yn 31 Dew Street, Hwlfordd, SA61 1ST, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 14 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Dew Street Dental yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfleusterau clinigol a chyfleusterau i gleifion a oedd mewn cyflwr da ac yn cynnwys y cyfarpar priodol.

Drwy gydol ein harolygiad, gwnaethom nodi ac adolygu nifer o feysydd nad oeddent yn cael eu dogfennu, er i'r staff ddweud wrthym fod y prosesau dan sylw wedi cael eu cynnal. Mae angen i'r gwasanaeth atgyfnerthu a gwella ei systemau a phrosesau cofnodi er mwyn rhoi tystiolaeth glir fod y camau wedi'u cymryd.

Gwnaethom argymhell gwelliannau i'r broses dihalogi yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn ogystal, gwnaethom argymhell fod y practis yn rhoi'r gorau i'r arfer o sterileiddio ac ailddefnyddio'r tiwbiau sugno a oedd yn cael eu defnyddio ar adeg ein hymweliad, ac yn hytrach, defnyddio tiwbiau sugno untro.

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn fanwl ar y cyfan, ond gwnaethom nodi rhai meysydd y mae'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lawn am ofal cleifion yn cael ei chofnodi.

Roedd gan y practis gyfres o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd yn galluogi'r staff i gael gwybodaeth i'w helpu gyda'u gwaith o ddydd i ddydd. Rydym wedi argymhell bod y dogfennau hyn yn cael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac yn cyd-fynd â rheoliadau Cymru.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar

y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cyfleusterau clinigol a chyfleusterau i gleifion ar y llawr gwaelod, a oedd yn golygu bod y practis yn hygyrch ac yn addas i gleifion â phroblemau symudedd
- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn
- Nodwyd gennym bod hwn yn bractis sy'n canolbwyntio ar gleifion a bod y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ond cwrtais
- Roedd y deintyddfeydd mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar da
- Gwelwyd bod gwastraff yn cael ei storio'n briodol a dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwella'r cofnodion a gedwir ym mhob maes yn y practis er mwyn rhoi tystiolaeth glir bod y camau wedi'u cymryd
- Mae angen gwella'r broses ddihalogi yn unol â chanllawiau cenedlaethol er mwyn dangos bod y cyfarpar yn gweithio ac yn glanhau'r offer yn briodol.
- Dylid defnyddio tiwbiau sugno untro ym mhob rhan o'r practis.
- Mae angen i nodiadau'r cleifion gofnodi'r cyfiawnhad dros gynnal profion pelydr-X, risgiau a manteision cynnal profion pelydr-X a phrosesau sgrinio canser y geg
- Gweler Atodiad C i weld y cynllun gwella llawn

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Dew Street Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Hwlfordd a'r ardal o'i hamgylch. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, un therapydd, pum nyrs ddeintyddol y mae un ohonynt yn hyfforddai, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Dew Street Dental yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog.

Roedd gan y practis ddeintyddfa, ystafell pelydr-X a chyfleusterau eraill i gleifion ar y llawr gwaelod a oedd yn ei gwneud yn bosibl i bobl ag anawsterau symudedd gael eu trin yn y practis.

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod unrhyw gwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi, a bod y practis yn ymdrin â nhw. Er mwyn gwella'r broses hon, rydym wedi argymhell bod gweithdrefn benodol ar gyfer triniaeth y GIG a gweithdrefn benodol ar gyfer triniaeth breifat ar gael i gleifion.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion blynyddol, sy'n sicrhau bod yna ddulliau o nodi themâu, gyda'r nod o wella gwasanaethau i gleifion. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylai sylwadau ar lafar ac adborth cyffredinol gael eu cofnodi'n ffurfiol er mwyn ategu a gwella'r wybodaeth y mae'r practis yn ei derbyn, a gwella'r gwasanaethau i gleifion ymhellach.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 47 o holiaduron. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Rydym wedi bod yn y practis hwn ers iddo agor ac ni allwn weld dim o'i le arno. Maent astad yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwysnas"

"Maen nhw'n wych"

"Mae'r staff i gyd yn dangos cydymdeimlad ac yn gefnogol ac yn mynd allan o'u ffordd i'm helpu. Mae'r staff bob amser yn gwenu"

"Rwyf bob amser wedi cael gofal deintyddol rhagorol ac rwy'n fodlon â'r archwiliadau deintyddol rheolaidd y mae fy mhlant yn eu cael hefyd"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth benodol am y practis, ac amrywiol bamffledi hybu iechyd a hyrwyddo triniaeth gosmetig.

Roedd rhestr brisiau yn y dderbynfa/ardal aros yn dangos costau triniaethau preifat. Er nad yw'r practis ond yn ymgymryd â chanran fach o driniaethau'r GIG, mae'n rhaid i'r tîm hefyd sicrhau bod y cleifion sy'n talu am eu triniaeth GIG yn cael gwybodaeth glir am gostau. Dywedir hyn am nad oedd unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei harddangos.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth glir am gostau, gan gynnwys gwybodaeth am gostau GIG, yn cael ei harddangos ar gyfer unrhyw gleifion sy'n talu am eu triniaeth.

Gofal gydag urddas

¹ Cafodd deddfwriaeth Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd, ac roedd swyddfa breifat ar gael hefyd, os oedd angen.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn hefyd. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn eu trin â pharch pan oeddent yn mynd i'r practis.

Roedd 9 egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd ac roedd y copïau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Roedd tystiolaeth hefyd o gynlluniau triniaeth unigol yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Cofnodwyd caniatâd i gael triniaeth hefyd.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi derbyn cais i ddiweddarau ei daflen wybodaeth i gleifion a'i ddatganiad o ddiben yn dilyn ei gofrestrriad

² Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

diweddar ag AGIC³, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dywedodd y staff wrthym fod y newidiadau yn cael eu gwneud ac y byddai'r dogfennau yn cael eu cyflwyno i AGIC ar ôl iddynt gael eu diweddarau.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydsyniad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd ambell un o'r cleifion wrthym eu bod yn siaradwyr Cymraeg a'u bod bob amser, neu weithiau, yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Roedd arwydd yn yr ystafell aros yn gofyn i'r cleifion siarad ag aelod o'r staff os oeddent am drafod eu triniaeth yn Gymraeg.

Gofal amserol

Dywedodd y staff yn y practis wrthym fod apwyntiadau'n cael eu darparu mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn trefnu apwyntiad.

Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd y rhif ffôn y tu allan i oriau wedi'i arddangos y tu allan i'r practis. Yn ogystal, roedd y neges ar beiriant ateb y practis yn cynnwys y rhif ffôn y tu allan i oriau.

Gofal unigol

³ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i hiw.org.uk

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth unigol, a chadarnhaodd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd ein holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan Dew Street Dental yn cyd-fynd â'r daflen wybodaeth i gleifion.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn addas i unrhyw un oedd ag anhawster symudedd. Roedd un gris bach wrth fynedfa'r adeilad ac roedd y drysau'n ddigon llydan i ganiatáu ar gyfer cymhorthion symudedd. Roedd un ddeintyddfa, ystafell pelydr-X, derbynfa/ystafell aros a thoiled cyhoeddus ar y llawr gwaelod. Roedd dwy ddeintyddfa arall ac ystafell aros ychwanegol ar y llawr cyntaf.

Roedd y cyfleusterau toiled yn lân ac yn darparu cyfleusterau golchi a sychu dwylo. Roedd yr ystafell yn ddigon mawr i ganiatáu ar gyfer cymhorthion symudedd ond nid oedd canllawiau i gynnig cymorth ychwanegol. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion ag anawsterau symudedd yn dod â gofalwr gyda nhw i roi cymorth ychwanegol os oedd angen.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar waith. Roedd y polisi'n cynnwys manylion sefydliadau eraill i'r cleifion gysylltu â nhw pe bai angen cyngor ychwanegol arnynt.

Roedd arwydd yn yr ystafell aros yn dweud wrth y cleifion i ofyn i'r staff am gopi o'r polisi cwynion pe bai ganddynt bryder.

Er bod y polisi cwynion yn nodi'r bwrdd iechyd lleol fel pwynt cyswllt perthnasol, argymhellir bod proses glir yn cael ei chofnodi er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwybod pa broses i'w dilyn gan ddibynnu a yw eu cwyn yn ymwneud â thriniaeth breifat neu driniaeth y GIG. Yn ogystal, dylai gwybodaeth Gweithio i Wella⁴ fod ar gael i gefnogi claf â phryder sy'n ymwneud â thriniaeth y GIG.

Roedd gan y practis ffeil gwynion a oedd yn cael ei ddefnyddio fel eu system i gofnodi a monitro unrhyw gwynion a dderbyniwyd, ac ymateb iddynt. Ychydig iawn o gwynion a dderbyniwyd, ond gwelsom fod y ffeil gwynion yn cynnwys yr holl ohebiaeth a oedd yn ymwneud â phob cwyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn adolygu'r cwynion i nodi unrhyw themâu, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnal arolygon cleifion blynyddol fel ffordd o gael adborth cleifion ar y gwasanaeth. Gwelsom hefyd y dadansoddiad o'r arolwg a gwblhawyd yn 2017, a oedd yn dangos bod eu grŵp cleifion wedi ymateb yn gadarnhaol. Roedd camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a oedd wedi'u nodi o ymatebion 2017. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys arddangos y rhif ffôn mewn argyfwng/y tu allan i oriau. Roedd rhai o'r cleifion wedi tynnu sylw at y diffyg lleoedd parcio arhosiad hir y tu allan i'r practis. Er nad oedd gan y practis leoedd parcio penodol, roedd lleoedd parcio am ddim ar gael gerllaw ac roedd y staff wedi gofyn i'r cyngor lleol am y cyfyngiadau amser a oedd ar waith y tu allan i'r practis. Awgrymwyd felly y dylai'r practis ystyried ffyrdd o gyfleu canlyniadau eu harolygon fel bod y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn bwriadu cyhoeddi canlyniadau yn y dyfodol ar wefan y practis.

Nid oedd unrhyw system ffurfiol ar gyfer casglu sylwadau llafar nac adborth cyffredinol gan gleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrin ag unrhyw sylwadau llafar/adborth yn y fan a'r lle, ond gwnaethom argymhell y dylid rhoi systemau ychwanegol ar waith er mwyn cofnodi'r materion hyn yn ffurfiol, a'u defnyddio fel ffordd ychwanegol o nodi gwelliannau i'r gwasanaeth.

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion y GIG a chleifion preifat yn cael eu cyfeirio at y gweithdrefnau cwyno priodol a bod proses Gweithio i Wella y GIG yn cael ei harddangos i gleifion y GIG.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gweithredu system ffurfiol ar gyfer cofnodi sylwadau llafar a galluogi cleifion i gyflwyno adborth cyffredinol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Gwnaethom nodi elfennau o'r broses ddihalogi y mae angen eu gwella a'u cofnodi. Er enghraifft, rydym yn argymhell bod rhestrau gwirio dechrau a diwedd y dydd yn cael eu rhoi ar waith a bod yr offer awtoclaf ac uwchsain yn cael eu profi'n rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis roi'r gorau i sterileiddio ac ailddefnyddio'r tiwbiau sugno a oedd yn cael eu defnyddio ar adeg ein hymweliad; ac yn hytrach, defnyddio tiwbiau sugno untro.

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn fanwl ar y cyfan, ond gwnaethom nodi rhai meysydd y mae'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lawn am ofal pob claf yn cael ei chofnodi.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwelsom fod profion ar ddyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau'r defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach yn y practis.

Roedd tri llawr i'r practis, gyda'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yn cynnig cyfleusterau deintyddol i drin cleifion. Roedd swyddfeydd y staff ar y trydydd llawr. Roedd y practis wedi'i addasu i greu derbynfa/ystafell aros agored, a oedd yn olau, yn lân ac yn daclus. Roedd tair deintyddfa yn Dew Street Dental, ac roedd offer priodol ym mhob un ohonynt. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol yn ôl pob golwg ac roedd pob ardal o fewn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Hefyd, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn, yn eu barn nhw.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân ffurfiol. Roedd un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ac wedi rhoi trosolwg ohono i'r aelodau eraill o staff. Gan nad oedd yr aelod hwn o'r staff yn gweithio'n llawn amser yn y practis, rydym yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân.

Roedd allanfeydd argyfwng i'w gweld, ac roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis.

Roedd amrywiol bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas i'r diben.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol/dadebru brys diweddaraf. Roedd gan y practis swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod mwy o'r staff yn mynd i gael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod gan y practis ddigon o swyddogion cymorth cyntaf bob amser.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁵. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol mewn man lle gellid cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddar'u'n briodol.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (sef dihalogi). Roedd ein harsylwadau o'r broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Sinc bwrpasol i olchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd yr offer yn cael eu storio a'u dyddio'n n briodol
- Roedd digon o offer diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal n 2015 gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm

⁵ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. ⁶ Gwnaethom gydnabod bod hyn yn enghraifft o arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae Deioniaeth Cymru yn nodi ei bod yn arfer da cynnal yr archwiliad yn flynyddol ac rydym yn argymhell y dylid dilyn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y safonau'n aros yn uchel.

Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i raglen cynnal a chadw dyddiol y practis ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio. Er bod llyfr cofnod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y bath uwchsain⁷, rydym yn argymhell bod profion protein⁸ a ffoil⁹ yn cael eu cynnal a'u cofnodi er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yr offer/proses, yn unol â WHTM 01-05. Roedd gan yr awtoclaf gofnodwr data nad oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Gwnaehom argymhell bod y staff yn cynnal profion helics¹⁰ ar gyfer yr awtoclaf ynghyd â dadansoddiad rheolaidd o'r cofnodwr data, y bydd angen eu cofnodi er mwyn dangos bod y cyfarpar yn gweithio'n briodol.

Mae angen rhoi rhestrau gwirio ar waith ar gyfer y gwiriadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd, gan nad oedd unrhyw dystiolaethgofnodedig fod y tasgau gofynnol yn cael eu cynnal.

⁶ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁷Proses sy'n defnyddio uwchsain a thoddydd glanhau priodol i lanhau eitemau yw glanhau uwchsain. Gall glanhawyr uwchsain fod yn fwy effeithiol na glanhau â llaw, yn enwedig wrth lanhau offer cymhleth ac offer â cholynnau. Maent hefyd yn lleihau nifer yr achosion o dasgu ac anafiadau a achosir gan offer miniog a all ddigwydd wrth lanhau â llaw.

⁸Prawf cemegol yw prawf gweddillion protein, a ddefnyddir i ganfod lefelau o brotein ar lwyth wedi'i brosesu na ellir ei weld drwy edrych arno. Mae'r prawf yn chwilio am fath penodol o brotein a geir mewn gwaed. Os nad yw offeryn yn lân, ni ellir ei sterileiddio.

⁹Cynhelir prawf ffoil ar lanhawr uwchsain i fesur ei berfformiad. Caiff perfformiad glanhawr uwchsain ei bennu gan gryfder a dosbarthiad cafasiwn yr hylif a pha mor ddwys ydyw. Mae ffoil alwminiwm yn ei gwneud yn bosibl gweld y dwysedd, y cryfder a'r dosbarthiad. Os yw'r glanhawr uwchsain yn gweithio'n effeithiol, dylai'r ffoil gael ei dyllu.

¹⁰Dull ar gyfer asesu a yw awtoclaf ager yn gweithio'n iawn ac felly ar gyfer mesur ei gapasiti ar gyfer sterileiddio a threiddiad ager mewn eitem wag. Mae prawf Helics yn dangos cryfder treiddiad ager mewn siambr.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol mewn sied dan glo y tu allan i'r practis. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad rheoli heintiau blynyddol yn cael ei gynnal a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi er mwyn dangos tystiolaeth o unrhyw gamau gweithredu

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella ei weithdrefnau rheoli heintiau, yn benodol mewn cysylltiad â dihalogi. Yn arbennig, mae angen rhoi rhestrau gwirio ar ddechrau a diwedd y dydd ar waith, a chadw cofnod ohonynt fel tystiolaeth; mae angen profi'r offer glanhau awtoclaf ac uwchsain yn rheolaidd yn unol â chanllawiau WHTM 01-05 a chofnodi'r canlyniadau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Ar adeg ein hymweliad, nid oedd tystysgrif dadebru cardiobwlmonaidd un deintydd ar gael. Gwnaethom ofyn i'r darparwr cofrestredig anfon copi o'r dystysgrif i AGIC.

Gwelwyd bod cyffuriau argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio hen gyffuriau a chwistrelli a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU)¹¹.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cadw cofnod o bresgripsiynau'r GIG. Dylai'r cofnod nodi pob presgripsiwn o'r pad presgripsiwn. Dylai hefyd gynnwys manylion megis enw'r claf, y feddyginiaeth, y maint a'r dos, dyddiad y presgripsiwn a rhif cyfres unigryw'r presgripsiwn.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig gadw cofnod o bob presgripsiwn GIG a roddir.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisi'n cynnwys manylion yr ysbyty lleol, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd siart lif ar gael i ddangos i'r staff pa gamau sydd angen eu cymryd pe byddai mater yn ymwneud â diogelwch yn codi. Rydym yn argymhell bod y practis yn ystyried hyn.

¹¹ Nod [y Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes diogelu oedolion a phlant. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff i fod yn swyddog arweiniol ar gyfer diogelu. Mae'n gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu, a gall roi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r prif ddeintydd, rheolwr y practis neu unrhyw uwch-reolwr arall, a'u bod yn hyderus y byddent yn ymateb i'r pryderon hynny.

Soniodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹² (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a gwnaethom nodi bod hwn yn arfer da.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael ei hyfforddi'n addas i ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r deintyddfeydd yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr offer deintyddol mewn cyflwr boddhaol ac roedd digon ohonynt ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod tiwbiau sugno yn cael eu sterileiddio a'u hailddefnyddio. Gan nad oedd cylchred gwactod yn cael ei defnyddio yn ystod y broses sterileiddio, ni allwn fod yn sicr bod y tiwbiau sugno yn gwbl sterilaid. Argymhellwn felly fod tiwbiau sugno untro, sterilaid yn cael eu defnyddio ar unwaith ar ôl ein harolygiad.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn

¹² Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol¹³ wedi'u harddangos yn ymyl yr offer pelydr-X er mwyn nodi'r cyfarwyddiadau gweithio allweddol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r offer cyn lleied â phosibl.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod tiwbiau sugno untro, sterilaidd yn cael eu defnyddio yn y practis.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cynhaliodd y practis nifer gyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Dywedodd y staff wrthym am yr archwiliadau roeddent yn bwriadu eu cynnal yn 2018, a oedd yn cynnwys archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad o gofnodion cleifion. Bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

¹³Cyfras o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau mewn deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhoi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith, gan gynnwys cynlluniau gwella lle bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Ychydig o dystiolaeth a welsom o broses ffurfiol o ran asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Argymhellwn, felly, fod unrhyw adolygiadau ac archwiliadau clinigol yn cael eu dogfennu a'u defnyddio i gefnogi newidiadau yn y practis. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn bwriadu dilyn cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain¹⁴. Bydd hyn yn galluogi'r practis i ddangos ei fod yn dilyn arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli a chofnodi adolygiadau o wasanaethau ac archwiliadau clinigol, gan gynnwys canlyniadau gweithgarwch o'r fath

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd ac roedd nodiadau papur yn cael eu storio mewn cabinet dan glo.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

¹⁴Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da o ran cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i'w cleifion.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ar y cyfan ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi'u cynllunio er mwyn hyrwyddo lles a diogelwch cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhai enghreifftiau lle'r oedd y cofnodion yn anghyson ac angen eu gwella:

- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson h.y. defnydd o alcohol a thybaco. Lle roedd cofnodion y cleifion yn nodi eu bod yn smygwyr, prin oedd y cofnodion a oedd yn nodi pryd y cynigiwyd cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y cyfiawnhad dros gynnal profion pelydrau-X yn cael eu cofnodi na bod y profion yn cael eu cofnodi.
- Nid oedd y gwaith o gofnodi prosesau sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gwblhau fel endid ar wahân.
- Yn unol â rheoliadau IR(ME)R 2017, mae'n rhaid cofnodi risgiau a manteision pelydrau-X
- Roedd angen cofnodi hanes meddygol cleifion yn gyson ac roedd angen i'r clinigwyr eu gwirio yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid rhoi sylw penodol i wella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y cofnodir hanes meddygol, risgiau a manteision profion pelydr-X, prosesau sgrinio ar gyfer canser y geg a'r cyfiawnhad dros gynnal profion pelydr-X a'r profion hynny.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae hwn yn bractis sefydledig, y mae'r prif ddeintydd yn berchen arno ac yn ei arwain, ac a gefnogir gan reolwr practis ac uwch-reolwyr eraill. Roedd tystiolaeth gref i ddangos ei fo yn bractis deintyddol sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod yr arferion gwaith yn aros yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu rheoliadau Cymru.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd wedi helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r amrywiol ganlyniadau y dywedodd y staff wrthym amdanynt eu bod wedi'u cyflawni, gan gynnwys geirdaon cyflogaeth a rhaglen sefydlu. O ganlyniad, argymhellwn fod prosesau'n cael eu gwella a'u hatgyfnerthu er mwyn sicrhau y cedwir cofnod ohonynt yn unol â rheoliadau a'r safonau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Dew Street Dental, ac ef hefyd yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig¹⁵. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o bolisi chwythu'r chwiban a dywedwyd wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a ddarperir i gleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen, priodol os oedd angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategywyd hyn gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau, gan eu bod yn rhai cyffredinol. Diben hyn oedd sicrhau eu bod yn rhoi mwy o fanylion perthnasol i'r staff, a'u bod yn berthnasol i ofynion y practis. Gwnaethom hefyd awgrymu bod y staff yn llofnodi taflen i ddangos eu bod wedi deall a darllen y polisiau a'r gweithdrefnau a'u bod yn eu deall, yn ogystal â'u cyfrifoldebau. Roedd dalen flaen ar y ffeil polisiau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau'r arferion diweddaraf. Roedd rhai polisiau a gweithdrefnau yn enwi rheoliadau yn Lloegr a chyrrff arolygu nad ydynt yn gymwys yng Nghymru. Gwnaethom argymhell bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r rheoliadau priodol yng Nghymru a, lle y bo'n briodol, y cyrrff arolygu cymwys.

Roedd y practis wrthi'n diweddarau ei ddatganiad o ddiben a'i ganllaw i gleifion yn dilyn argymhellion a wnaed gan AGIC yn ystod ei phroses gofrestru. Bydd y dogfennau wedi'u diweddarau yn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu

¹⁵ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

cyfer. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, gwnaethom atgoffa'r unigolyn cofrestredig o'i gyfrifoldeb i gynnal ymweliadau yn unol â rheoliad 23. Mae hyn yn golygu bod ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth reoleiddiedig ei reoli, ac am sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn dogfennu'r arferion lleol a ddefnyddir yn y practis, a'u diweddarau i adlewyrchu'r rheoliadau a/neu'r cyrff proffesiynol sy'n gymwys i bob practis yng Nghymru.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys polisi recriwtio staff, polisi cyfle cyfartal, polisi tanberfformio (chwythu'r chwiban) a pholisi cyfrinachedd.

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth cyflogaeth arall ar goll o ffeiliau'r staff. Dywedwyd wrthym fod geirdaon llafar wedi'u cymryd ar gyfer un aelod o'r staff ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yn y ffeil i gadarnhau'r sgwrs na'r canlyniad. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiâu a gweithdrefnau perthnasol. Nid oedd tystiolaeth o'r broses hon i'w gweld yn y ffeiliau a adolygwyd gennym. Drwy gydol yr ymweliad, roedd y staff yn gallu disgrifio eu prosesau a'u gweithdrefnau ar lafar, ond nid oedd unrhyw wybodaeth/tystiolaeth ysgrifenedig i ategu hynny. Rydym yn argymhell, felly, fod y practis yn gwella'r maes hwn ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dogfennu'n glir a'i chadw'n briodol, er mwyn dangos yn glir bod yr hyn roedd y staff yn ei ddweud wrthym yn digwydd, a'i fod yn unol â'r rheoliadau a'r safonau.

Roedd tystiolaeth bod y staff wedi cael arfarniadau o fewn y flwyddyn ddiweddaraf, a bod y trafodaethau wedi cynnwys hyfforddiant a datblygiad.

Gwelsom rai tystysgrifau staff yn dangos tystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd angen hyfforddiant diogelwch tân ar y staff.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd modd i ni adolygu ffeil un aelod o'r staff ac rydym wedi gofyn bod gwybodaeth am y cyflogai hwn yn cael ei chyflwyno i AGIC, yn benodol er mwyn cadarnhau ei fod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gyfer dadebru a rheoli heintiau. Cytunwyd ar hyn yn y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hynny ar gael. Rhwng y cyfarfodydd ffurfiol, dywedodd y staff eu bod yn trafod materion yn ddyddiol, ond bod hynny'n digwydd mewn ffordd anffurfiol ac nad oedd yn cael ei gofnodi. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar ffeil, ar gyfer unrhyw aelod o'r staff nad oedd yn gallu mynd i'r cyfarfodydydd tîm ffurfiol. Roedd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer yr holl staff clinigol.


Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella ac atgyfnerthu ei systemau a'i brosesau cofnodi er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dogfennu'n glir a'i chadw yn unol â'r rheoliadau a'r safonau.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth i AGIC i gadarnhau bod gan yr aelod o'r staff nad oedd ei dystysgrifau hyfforddiant ar gael i'w harchwilio ar ddiwrnod yr arolygiad, y wybodaeth briodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.



DRAFT

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

DRAFT

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Dew Street Dental

Dyddiad arolygu: 14 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Atodiad C – Cynllun gwella

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Gwasanaeth: Dew Street Dental Practice Ltd

Dyddiad arolygu: 14 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau gwybodaeth glir am gostau, gan gynnwys gwybodaeth am gostau'r GIG, yn cael ei rhoi i unrhyw gleifion sy'n talu am eu triniaeth ddeintyddol.	Rheoliad 13 (9) (a) Safonau lechyd a Gofal 3.2	Mae'r posteri sy'n dangos costau triniaethau wedi'u diweddarau i gynnwys bandiau ffioedd y GIG a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 18/10/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cyfathrebu'n Effeithiol			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion y GIG a chleifion preifat yn cael eu cyfeirio at y gweithdrefnau cwyno priodol a bod proses Gweithio i Wella y GIG yn cael ei harddangos i gleifion y GIG.	Rheoliad 21 (4) (b) Safonau lechyd a Gofal 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Poster i Gweithio i Wella y GIG yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd aros. Polisi cwynion wedi'i ddiweddarau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 18/10/18
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gweithredu system ffurfiol ar gyfer cofnodi sylwadau llafar a galluogi cleifion roi adborth cyffredinol.	Rheoliad 16 (1) (a); (2) (c), (d) (i) (ii) (iii) a 21 (5) Safonau lechyd a Gofal 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Bydd ffurflenni adborth ar gael bob amser wrth ddesg y dderbynfa, a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u harchwilio a chaiff y canlyniadau eu cynnwys yn ein hadroddiad sicrhau ansawdd er mwyn rhoi adborth i'r holl randdeiliad.	Rheolwr y Practis	I'w roi ar waith ddiwedd mis Tachwedd 2018
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant	Rheoliad 22 (4)	Hyfforddiant tân wedi'i drefnu ar gyfer	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diogelwch tân, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddarau'n briodol.	(c)	22/10/18		22/10/18
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad rheoli heintiau blynyddol yn cael ei gynnal a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi er mwyn dangos tystiolaeth o unrhyw gamau gweithredu	<p>WHTM 01-05</p> <p>Rheoliad 13 (3) (a) a (6) (a) (b) (i) (ii) (iii)</p> <p>Safonau lechyd a Gofal 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Cwblhawyd archwiliad WHTM 01-05 gan ddefnyddio Adnodd Archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau. Mae materion technolegol sy'n ymwneud â'r adroddiad adborth yn ein hatal rhag ei argraffu ar hyn o bryd. Rydym yn gweithio ar y mater hwn.</p> <p>Caiff yr archwiliad ei ailadrodd o leiaf unwaith y flwyddyn.</p>	Darparwr Cofrestredig	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella ei weithdrefnau rheoli heintiau, yn benodol mewn cysylltiad â dihalogi. Mae angen rhoi rhestrau gwirio ar ddechrau a diwedd y dydd ar waith, a chadw cofnod ohonynt fel tystiolaeth; mae angen profi'r offer glanhau awtoclaf ac uwchsain yn rheolaidd yn unol â chanllawiau WHTM 01-05 a chofnodi'r canlyniadau	<p>WHTM 01-05</p> <p>Rheoliad 13 (6) (a) (b) (i) (ii) (iii)</p> <p>Safonau lechyd a Gofal 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Cwblhawyd archwiliad WHTM 01-05 gan ddefnyddio Adnodd Archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau.</p> <p>Yn dilyn yr arolygiad, rhoddwyd gwiriadau ychwanegol ar waith, a'u cofnodi fel tystiolaeth.</p> <p>Caiff cyfarpar sterileiddio ei brofi'n rheolaidd yn unol â WHTM 01 – 05 a</p>	Rheolwr y Practis	<p>Cwblhawyd 18/09/18</p> <p>Cwblhawyd 15/08/18</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		chanllawiau'r gwneuthurwyr. Mae'r gweithdrefnau ar ddechrau a diwedd y dydd wedi'u diweddarau, ac erbyn hyn cânt eu cynnal yn rheolaidd.		
Dylai'r darparwr cofrestredig gadw cofnod o bob presgripsiwn GIG a roddir	Safonau lechyd a Gofal 3.5 Cadw Cofnodion	Cyflwynwyd cofnodlyfr i gofnodi pob presgripsiwn GIG a roddir. Caiff ei gadw dan glo yn y cabinet meddyginiaethau	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 15/08/18
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod tiwbiau sugno untro, sterilaidd yn cael eu defnyddio yn y practis	Rheoliad 13 (1) (a) (b) (2) (a) Safonau lechyd a Gofal 2.1 Lliniaru Risg a Hyrwyddo lechyd a Diogelwch a 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae tiwbiau sugno untro yn cael eu defnyddio yn y practis yn dilyn yr arolygiad.	Darparwr Cofrestredig	15/08/18
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhoi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith, gan gynnwys cynlluniau gwella lle bo'n	Rheoliad 16 (1) (a) a 23 (2) (a) (b)	Cronfa ddata	Darparwr Cofrestredig	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
briodol.	(c) (3) Safonau lechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli a chofnodi adolygiadau o wasanaethau ac archwiliadau clinigol, gan gynnwys canlyniadau gweithgarwch o'r fath	Rheoliad 13 (8) ac 16 (1) (a) Safonau lechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Caiff adroddiad sicrhau ansawdd ei lunio i gynnwys canlyniadau'r holl archwiliadau, adborth, cwynion, arolygon cleifion. Bydd yr adroddiad ar gael i'r holl randdeiliaid.	Darparwr Cofrestredig	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol y cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodon. Rhaid rhoi sylw penodol i wella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y cofnodir hanes meddygol, risgiau a manteision profion pelydr-X, prosesau sgrinio ar gyfer canser y geg a'r cyfiawnhad dros gynnal profion pelydr-X a'r	Rheoliad 20 (1) (a) (i) (ii) Safonau lechyd a Gofal 3.5 Cadw Cofnodion	Trefnir i archwiliad rheolaidd o nodiadau cleifion y Deintydd Cyswllt gael ei gynnal, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid. Gwnaed gwelliannau i'r feddalwedd ddeintyddol er mwyn sicrhau bod modd cynnwys y manylion hynny.	Darparwr Cofrestredig	Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
profion hynny.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn dogfennu'r arferion lleol a ddefnyddir yn y practis, a'u diweddarau i adlewyrchu'r rheoliadau a/neu'r cyrff proffesiynol sy'n gymwys i bob practis yng Nghymru.	Rheoliad 8 (6)	Caiff yr holl bolisiâu a gweithdrefnau eu hadolygu'n flynyddol. Y dyddiad adolygu nesaf yw mis Ionawr 2019. Caiff yr holl bolisiâu eu hadolygu i adlewyrchu'r rheoliadau lleol.	Darparwr Cofrestredig	Ionawr 2019
Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella ac atgyfnerthu ei systemau a'i brosesau cofnodi er mwyn sicrhau bod gwybodaeth wedi'i dogfennu'n glir ac wedi'i chadw yn unol â'r rheoliadau a'r safonau.	Rheoliad 16 (2) (a) (b) (i) (ii) (iii) (iv) a 18 (2) (e) ac 20 (1) (a) (i) (ii) Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw Cofnodion	Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi rhoi systemau strwythuredig ar waith gyda chymorth canllawiau Cymdeithasol Ddeintyddol Prydain.	Darparwr Cofrestredig	Parhaus
Rhaid cyflwyno tystiolaeth i AGIC i gadarnhau bod gan yr aelod o'r staff nad oedd ei dystysgrifau hyfforddiant ar gael i'w harchwilio ar ddiwrnod yr arolygiad, y wybodaeth briodol yn	Rheoliad 13 (6) (c) (i) (ii) Safonau Iechyd a Gofal	Y Tystysgrifau Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol wedi'u lanlwytho i AGIC	Rheolwr y Practis	22/10/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	7.1 Y Gweithlu			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Lauren Bowen

Teitl swydd: Darparwr Cofrestredig

Dyddiad: 22/10/18